

Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru



Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru

Cynulleidfa

Athrawon, penaethiaid a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru; colegau a darparwyr dysgu eraill sydd yn gweithio gyda dysgwyr 14 i 19 oed yng Nghymru; awdurdodau addysg lleol; darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon; undebau athrawon a chyrrff cynrychioli ysgolion; awdurdodau esgobaethol eglwysi; cyrrff cenedlaethol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn addysg.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn egluro gofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru. Fe'i cyhoeddir yn unol â'r pwerau yn Adran 108 o Ddeddf Addysg 2002 ac a freiniwyd yng Ngweinidogion Cymru. Mae Gweinidogion Cymru yn rhan o Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Camau i'w cymryd

O 1 Awst 2008, dylai athrawon, penaethiaid a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, colegau a darparwyr dysgu eraill seilio eu darpariaeth addysg bersonol a chymdeithasol ar y ddogfen hon.

Gwybodaeth bellach

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu 3–14
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Llawr 10, Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW
Ffôn: 0800 083 6003
Ffacs: 029 2037 5496
e-bost: C&A3-14.C&A3-14@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Ar gael drwy gysylltu:
Ffôn: 029 2037 5427
Ffacs: 029 2037 5494
Neu drwy ymweld â gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru
www.cymru.gov.uk neu www.cymru.gov.uk/addysgbersonolachymdeithasol

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Nodau	4
Agwedd gyfannol at ABCh	5
Cynnwys pob dysgwr	6
Sgiliau ar draws y cwricwlwm	8
Dysgu ar draws y cwricwlwm	10
Themâu ABCh	11
Dilyniant mewn ABCh	16
Deilliannau dysgu	
Cyfnod Allweddol 2	18
Cyfnod Allweddol 3	20
Cyfnod Allweddol 4	22
Ôl-16	24

Cyflwyniad

Mae addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn **rhan o'r cwricwlwm sylfaenol ar gyfer pob disgybl cofrestredig 7 i 16 oed mewn ysgolion a gynhelir**. Yn y bôn, cyfrifoldeb ysgolion yw cynllunio a chyflwyno rhaglen eang a chytbwys o ABCh i ddiwallu anghenion penodol dysgwyr.

Y fframwaith ABCh yw'r ddogfen allweddol y dylai ysgolion a cholegau ei defnyddio i adolygu a datblygu'r ddarpariaeth ABCh bresennol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed. Mae'n adeiladu ar y Maes Dysgu Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol a geir yn *Fframwaith Cyfnod Sylfaen ar gyfer dysgu plant 3 i 7 oed yng Nghymru*, ac sy'n mynd yn ei blaen i ymdrin â'r cydrannau hynny yn y Craidd Dysgu 14–19 sy'n gysylltiedig ag ABCh, megis Materion Personol, Cymdeithasol, Cynaliadwyedd ac Iechyd, Agweddau a Gwerthoedd, a Chyfranogiad Cymunedol.

Mae'r fframwaith wedi cael ei ddiweddarau i gynnwys themâu trawsbynciol, polisïau a chanllawiau perthnasol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd yn helpu ysgolion a cholegau i gynllunio, cydlynu a darparu hawliau dysgwyr.

Mae canllawiau ar y we wedi cael ei ddatblygu i hybu'r gwaith o gyflwyno darpariaeth ABCh gyfannol eang a chytbwys sydd wedi'i seilio ar y fframwaith ABCh. Mae'r canllawiau yn rhoi enghreifftiau o gyfleoedd i weithredu deilliannau dysgu'r cyfnodau allweddol, yn cyfeirio at ffynonellau cymorth ac yn gwneud cysylltiadau â dogfennau eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rhoddir cyngor ynghylch rheoli a chydlynu agwedd gyfannol at ABCh.

Mae'r canllawiau ar gael yn
www.cymru.gov.uk/addysgbersonolachymdeithasol

Nodau

Mae ABCh yn paratoi'r dysgwyr i fod yn effeithiol yn bersonol ac yn gymdeithasol drwy ddarparu profiadau dysgu lle gallant ddatblygu a defnyddio sgiliau, archwilio agweddau a gwerthoedd personol, a chaffael gwybodaeth a dealltwriaeth briodol.

Yn benodol, nodau ABCh yw:

- datblygu hunan-dyb y dysgwyr a'u hymdeimlad o gyfrifoldeb personol
- hybu hunan-barch, parch at eraill a dathlu amrywiaeth
- galluogi dysgwyr i fyw bywydau diogel ac iach
- paratoi'r dysgwyr ar gyfer y dewisiadau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â dysgu gydol oes
- galluogi'r dysgwyr i gyfranogi yn eu hysgolion a'u cymunedau fel dinasyddion gweithgar a chyfrifol yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang
- meithrin agweddau ac ymddygiad cadarnhaol tuag at egwyddorion datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang
- paratoi'r dysgwyr ar gyfer y sialensiau, y dewisiadau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â gwaith a bywyd oedolyn.

Agwedd gyfannol at ABCh

Mae ABCh yn cynnwys popeth y mae ysgol neu goleg yn ymgymryd ag ef i gefnogi a hybu datblygiad personol a chymdeithasol a lles y dysgwyr.

Mae ABCh yn galluogi plant a phobl ifanc i ddatblygu ymdeimlad o hunan-werth a rhyngweithio'n effeithiol ag eraill. Caiff dysgwyr eu paratoi i fod yn fwy gwybodus, hyderus a medrus er mwyn chwarae rhan weithgar a chyfrifol yn y gymdeithas a gwella dysgu, lefelau cymhelliant a chyflawniad.

Mae nodau ABCh, a amlinellir yn y fframwaith hwn, yn gosod y sylfaen ar gyfer agwedd gyfannol eang a chytbwys at ABCh sy'n cynnwys ystod o brofiadau i hybu datblygiad personol a chymdeithasol a lles dysgwyr. Mae'r ystod honno o brofiadau'n cynnwys yr holl brofiadau dysgu a gaiff eu cynllunio a'r holl gyfleoedd eraill sy'n nodweddion o ethos a bywyd cymunedol yr ysgol neu'r coleg.

Mae'n anochel y bydd rhai profiadau'n digwydd yn ddamweiniol, ond dylai ABCh olygu gwaith cynllunio cynhwysfawr mewn perthynas â'r cyd-destunau lle bydd datblygiad personol a chymdeithasol yn digwydd a lle bydd lles yn cael ei hybu. **Mae gan y staff i gyd rôl hollbwysig i'w chwarae yn hyn o beth, ac mae gan ethos a threfniadaeth yr ysgol neu'r coleg rôl hollbwysig i'w chwarae hefyd.**

Mae'r nodweddion canlynol ymhlith y rhai sy'n perthyn i agwedd gyfannol effeithiol a chydlynol:

- polisi ABCh cyfredol a gytunwyd gan yr holl staff
- addysgu sydd wedi'i gynllunio mewn perthynas â sgiliau, agweddau a gwerthoedd, a gwybodaeth a dealltwriaeth perthnasol ym maes ABCh, a hynny o fewn pynciau'r cwricwlwm cenedlaethol ac addysg grefyddol
- strategaethau addysgu a dysgu sy'n defnyddio dulliau gweithredu rhyngweithiol a phrofiadol
- gweithgareddau ABCh, sesiynau rheolaidd a chysiau achrededig
- gwerthfawrogi pob dysgwr
- hybu cydberthnasau cadarnhaol a hunan-dyb
- cydlynu effeithiol, a hyfforddiant a chymorth i'r staff
- gofal bugeiliol, arweiniad a monitro cynnydd
- dulliau gweithredu cadarnhaol mewn perthynas ag ymddygiad
- cyfleoedd i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau
- projectau sy'n ymwneud â dinasyddiaeth weithgar
- defnydd da o gysylltiadau â'r gymuned a chynnwys y gymuned
- cymryd rhan mewn rhaglenni cenedlaethol cymeradwy
- defnydd priodol o ymwelwyr ac ymweliadau
- profiadau allgyrsiol, clybiau, ac ati.

Cynnwys pob dysgwr

Cyfrifoldebau ysgolion, colegau a darparwyr dysgu eraill

Yn ôl Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a dogfen strategaeth drosfwaol Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Gweithredu'r Hawliau*, rhaid sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn derbyn addysg sy'n datblygu eu personoliaeth a'u talentau yn llawn. Mae Deddf Addysg 2002 yn cryfhau ymhellach ddyletswydd ysgolion i ddiogelu a hyrwyddo lles pob plentyn a pherson ifanc.

Mae'r ddeddfwriaeth cyfle cyfartal sy'n cwmpasu oedran, anabledd, rhyw, hil, crefydd a chred, a chyfeiriadedd rhywiol yn gosod ddyletswydd bellach ar ddarparwyr dysgu yng Nghymru tuag at y dysgwyr presennol a darpar ddysgwyr, sef cael gwared ar wahaniaethu ac aflonyddwch, hyrwyddo agweddau cadarnhaol a chyfle cyfartal, ac annog cyfranogiad ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

Dylai darparwyr dysgu feithrin ym mhob dysgwr ymdeimlad o hunaniaeth bersonol a diwylliannol sy'n dderbyngar ac yn parchu eraill. Dylent gynllunio ar draws y cwricwlwm i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth, sgiliau, gwerthoedd ac agweddau a fydd yn galluogi dysgwyr i gymryd rhan yn ein cymdeithas amlethnig yng Nghymru. Dylai darparwyr dysgu ddatblygu ymagweddau sy'n cefnogi hunaniaeth ethnig a diwylliannol pob dysgwr ac sy'n adlewyrchu ystod o safbwyntiau, er mwyn cael ymrwymiad dysgwyr a'u paratoi am fywyd fel dinasyddion byd-eang.

Rhaid i ddarparwyr dysgu weithio i leihau rhwystrau amgylcheddol a chymdeithasol i gynhwysiant a darparu cyfleoedd i'r holl ddysgwyr fel eu bod yn cyflawni eu potensial yn llawn wrth baratoi ar gyfer addysg bellach a bywyd. Lle bo'n briodol, bydd angen i ddarparwyr dysgu gynllunio a gweithio gyda gwasanaethau arbenigol i sicrhau y caiff dysgwyr brofiadau perthnasol a hygyrch.

Ar gyfer dysgwyr ag anableddau yn enwedig, dylent:

- wella mynediad i'r cwricwlwm
- gwneud gwelliannau ffisegol i gynyddu cyfranogiad mewn addysg
- darparu gwybodaeth mewn fformatau priodol.

Dylai darparwyr dysgu geisio cyngor ynglŷn ag addasiadau rhesymol, gweithgareddau amgen/addasedig ac offer ac adnoddau priodol y gellir eu defnyddio i gefnogi cyfranogiad llawn gan yr holl ddysgwyr, gan gynnwys rhai sy'n defnyddio dull arall o gyfathrebu heblaw am iaith lafar.

Ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf, dylai darparwyr dysgu gymryd camau penodol i'w helpu i ddysgu Cymraeg a Saesneg drwy'r cwricwlwm. Dylent ddarparu deunydd i ddysgwyr sy'n cyfateb â'u gallu, eu haddysg a'u profiad blaenorol, ac sy'n ymestyn eu datblygiad ieithyddol. Dylent hefyd annog y defnydd o ieithoedd cartref y dysgwyr wrth ddysgu.

Hawliau dysgwyr

Dylai darparwyr dysgu yng Nghymru sicrhau bod pob dysgwr yn ymrwymo'n aelodau llawn o gymuned eu dysgu, ac yn cael mynediad i'r cwricwlwm ehangach a holl weithgareddau, gan weithio ochr yn ochr â'u cyfoedion lle bo hynny'n bosibl. Dylai'r darparwyr dysgu addysgu'r holl raglenni astudio a fframweithiau mewn modd sy'n cyfateb i aeddfedrwydd a gallu dysgwyr sy'n dal i ddatblygu. Dylai hefyd sicrhau bod dysgwyr yn gallu gwneud defnydd llawn o'u dull dewisedig o gyfathrebu er mwyn cael mynediad i'r cwricwlwm. I ehangu eu dysgu, dylai dysgwyr brofi amrywiaeth o arddulliau dysgu ac addysgu.

Er mwyn galluogi pob dysgwr i fanteisio ar sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol ar bob lefel, gall darparwyr dysgu ddefnyddio cynnwys o gyfnodau neu gyfnodau allweddol blaenorol o fewn y cwricwlwm. Dylent ddefnyddio deunyddiau mewn modd sy'n addas i oedran, profiad, dealltwriaeth a chyrhaeddiad blaenorol y dysgwyr, er mwyn ennyn eu diddordeb yn y broses ddysgu.

Ar gyfer dysgwyr mwy galluog a thalentog sy'n gweithio ar lefelau uwch, dylai darparwyr dysgu gynnig mwy o her iddynt drwy ddefnyddio deunyddiau mewn modd sy'n ymestyn ehangder a dyfnder yr astudio a chyfleoedd i ddysgu'n annibynnol. Gellir cynyddu'r her hefyd drwy ddatblygu a chymhwyso meddwl, a sgiliau cyfathrebu, TGCh a rhif ar draws y cwricwlwm.

Dylai darparwyr dysgu ddewis deunydd a fydd yn:

- darparu cwricwlwm ystyrlon a pherthnasol sy'n cymell eu dysgwyr
- diwallu anghenion penodol eu dysgwyr a hyrwyddo'u datblygiad yn gyffredinol.

Dylai dysgwyr o bob gallu gael mynediad i asesu ac achredu priodol.

Sgiliau ar draws y cwricwlwm

Mae *Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru* anstatudol wedi cael ei ddatblygu er mwyn cynnig arweiniad ynghylch parhad a dilyniant mewn datblygu meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif i ddysgwyr 3–19 oed.

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y sgiliau y maent wedi dechrau eu caffael a'u datblygu yn ystod y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r dysgwyr barhau i gaffael, datblygu, ymarfer, cymhwyso a mireinio'r sgiliau hyn trwy dasgau grŵp a thasgau unigol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Gellir gweld cynnydd yn nhermau mireinio'r sgiliau hyn a thrwy eu cymhwyso i dasgau sy'n symud o'r diriaethol i'r haniaethol; syml i'r cymhleth; personol i'r 'darlun mawr'; cyfarwydd i'r anghyfarwydd; a dibynnol i'r annibynnol a'r cyd-ddibynnol.

Ar gyfer dysgwyr 14–19 oed, dylai'r fframwaith ddarparu'r sail ar gyfer gwneud cynnydd effeithiol yn y sgiliau hyn, y gellir eu asesu drwy ystod o gymwysterau sgiliau, gan gynnwys Sgiliau Allweddol.

Datblygu meddwl



Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau **cynllunio**, **datblygu** a **myfyrio**.

Mewn **addysg bersonol a chymdeithasol**, bydd y dysgwyr yn ymwneud ag ystod eang o faterion personol a chymdeithasol sy'n gofyn iddynt wneud penderfyniadau a gweithredu trwy gynllunio ymatebion personol, datblygu dealltwriaeth, a myfyrio ynghylch deilliannau o safbwynt hwy eu hunain ac eraill.

Datblygu cyfathrebu



Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy'r sgiliau **llafaredd**, **darllen**, **ysgrifennu** a **chyfathrebu ehangach**.

Mewn **addysg bersonol a chymdeithasol**, bydd y dysgwyr yn cyfathrebu trwy ymchwilio, gwrandao ar eraill, trafod mewn grwpiau bach a mawr, a rhannu gwybodaeth a syniadau â chyfoedion am amrywiaeth eang o faterion personol, cymdeithasol a chymunedol.

Datblygu TGCh



Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **ddarganfod, datblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd.

Mewn **addysg bersonol a chymdeithasol**, bydd y dysgwyr yn datblygu eu cymhwysiad pwrpasol o sgiliau TGCh a'u dealltwriaeth o fanteision a pheryglon defnyddio technolegau cyfredol a'r rhai sy'n datblygu. Byddant yn deall pwysigrwydd mabwysiadu arferion diogel a chyfreithiol sy'n lleihau'r peryglon i'w hunain ac i eraill pan fyddant yn defnyddio cyfathrebu digidol, ynghyd â gwerthfawrogi'r angen i barchu eraill.

Datblygu rhif



Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy **ddefnyddio gwybodaeth fathemategol, cyfrifo, a dehongli a chyflwyno casgliadau**.

Mewn **addysg bersonol a chymdeithasol**, bydd y dysgwyr yn casglu, yn dethol ac yn dadansoddi gwybodaeth rifol er mwyn datblygu tystiolaeth i gefnogi'u dealltwriaeth o faterion.

Dysgu ar draws y cwricwlwm

Yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr adeiladu ar y profiadau a gaffaelwyd yn ystod y Cyfnod Sylfaen, a hybu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o Gymru, eu datblygiad personol a chymdeithasol a'u lles, a'u hymwybyddiaeth o'r byd gwaith.

Ar gyfer dysgwyr 14–19 oed, dylai gwybodaeth a dealltwriaeth gael eu datblygu a'u cymhwyso o fewn cyd-destunau eu llwybrau 14–19 unigol gan gynnwys y Craidd Dysgu.

Y Cwricwlwm Cymreig (7–14) a Chymru, Ewrop a'r Byd (14–19)



Dylai dysgwyr 7–14 oed gael cyfleoedd i ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru. Dylai dysgwyr 14–19 oed gael cyfleoedd i fod yn weithredol wrth ddeall agweddau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol ar Gymru fel rhan o'r byd cyfan. Ar gyfer dysgwyr 14–19 oed, mae'n rhan o hawl y Craidd Dysgu ac yn ofyniad yng Nghyfnod Allweddol 4.

Mewn **addysg bersonol a chymdeithasol**, bydd y dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o natur cymunedau yng Nghymru a dealltwriaeth o'r swyddogaethau, y cydberthnasau, y gwrthdaro a'r anghydraddoldebau sy'n effeithio ar ansawdd bywyd. Bydd y dysgwyr yn caffael y sgiliau, y gwerthoedd a'r wybodaeth a fydd yn eu paratoi i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau yn eu cymunedau ac ar lefel leol, genedlaethol a byd-eang.

Addysg bersonol a chymdeithasol



Dylai dysgwyr gael cyfleoedd i hyrwyddo eu hiechyd a'u lles emosiynol a'u datblygiad moesol ac ysbrydol; fod yn ddinasyddion gweithgar a hybu datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang; a pharatoi ar gyfer dysgu gydol oes. Ar gyfer dysgwyr 14–19 oed, mae'n rhan o hawl y Craidd Dysgu ac yn ofyniad yng Nghyfnod Allweddol 4.

Gyrfaoedd a'r byd gwaith



Dylai dysgwyr 11–19 oed gael cyfleoedd i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r maes gyrfaoedd a'r byd gwaith a sut mae eu hastudiaethau'n cyfrannu at baratoi ar gyfer bywyd gwaith. Ar gyfer dysgwyr 14–19 oed, mae'n rhan o hawl y Craidd Dysgu ac yn ofyniad yng Nghyfnod Allweddol 4.

Mewn **addysg bersonol a chymdeithasol**, bydd y dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Byddant yn datblygu sgiliau hunanddadansoddi, adnabod cryfderau personol a gosod targedau ar gyfer gwelliant, ac yn cydnabod pwysigrwydd caffael y sgiliau newydd sydd eu hangen ar gyfer byd gwaith.

Themâu ABCh

Mae'r themâu a nodir yn y fframwaith ABCh fel a ganlyn:

- Dinasyddiaeth weithgar
- Iechyd a lles emosiynol
- Datblygiad moesol ac ysbrydol
- Paratoi ar gyfer dysgu gydol oes
- Datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

Mae'n bwysig cydnabod nad yw'r themâu hyn yn feysydd datblygu sydd ar wahân i'w gilydd, ond eu bod yn hytrach yn themâu y ceir cyswllt anorfod rhyngddynt.

Caiff y deilliannau dysgu'r cyfnodau allweddol ar gyfer pob thema eu cyflwyno dan y pennawd 'Ystod'. Yn yr adran 'Ystod', ceir manylion am yr agweddau a'r gwerthoedd, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth y dylid eu defnyddio fel cyd-destunau dysgu i ddatblygu sgiliau cysylltiedig ag ABCh.

Dinasyddiaeth weithgar

Gellir helpu'r dysgwyr i fwynhau cydberthnasau llwyddiannus o fewn eu teuluoedd a'u grwpiau o gyfeillion, a gellir eu hannog i fod yn ddinasyddion gweithgar yn eu cymunedau, yn lleol ac yn fyd-eang. Dylent ddatblygu dealltwriaeth ymarferol o'u hawliau a'r cysylltiadau rhwng penderfyniadau gwleidyddol a'u bywydau eu hunain.

Mae cydberthnasau llwyddiannus yn gofyn am sgiliau rhyngpersonol cymwys a pharodrwydd i werthfawrogi eraill a pharchu gwahaniaeth. Mae cydberthnasau da yn deillio o ofal a chefnogaeth, cyfathrebu a pharodrwydd i dderbyn cyfrifoldeb. Mae angen i'r dysgwyr allu ffurfio a chynnal cyfeillgarwch, delio â gwrthdaro, herio stereoteipiau a rhagfarn, ac ymdopi â dylanwad cyfoedion a phobl eraill. Ar lefel fwy cyffredinol, bydd byd gwaith a chyflogaeth yn gofyn am allu i gydweithredu a gweithio fel tîm.

Mae'r dysgwyr yn aelodau o gymunedau, sy'n amrywio o rai lleol i rai cenedlaethol a byd-eang, a gellir eu helpu i chwarae rhan ystyrlon a gweithgar yn y cymunedau hynny. Mae nifer o ystyriaethau'n perthyn i ddinasyddiaeth weithgar o'r fath. Mae angen cael dealltwriaeth o natur cymunedau yng Nghymru a thu hwnt ynghyd â dealltwriaeth o'r swyddogaethau, y cydberthnasau, y gwrthdaro a'r anghydraddoldebau sy'n effeithio ar ansawdd bywyd. Dylai'r dysgwyr archwilio'u hawliau mewn cymdeithas ddemocrataidd, a ategir gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae hawl ganddynt gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau, a chynllunio ac adolygu unrhyw weithredoedd a allai effeithio arnynt. Hefyd, dylai'r dysgwyr ystyried eu cyfrifoldebau fel dinasyddion ifanc a'u paratoi i gymryd rhan ym mywyd eu cymuned trwy gyfrwng gwasanaeth a chymau gweithredu sy'n hybu lles y gymuned honno.

Yn olaf, mae angen i ddysgwyr ddatblygu 'llythrennedd' gwleidyddol sy'n eu galluogi i wneud penderfyniadau effeithiol a ffurfio barn effeithiol ym maes systemau gwleidyddol a chyfreithiol.

Iechyd a lles emosiynol

Gellir helpu'r dysgwyr i gynnal eu hiechyd a'u lles emosiynol a chorfforol, cynnal eu twf a'u datblygiad, a gwybod sut i'w diogelu eu hunain. Wrth blant a phobl ifanc ddatblygu'n rhywiol, mae angen iddynt ddeall newidiadau corfforol, rheoli teimladau rhywiol a mwynhau cydberthnasau diogel, cyfrifol a hapus. Gellir galluogi'r dysgwyr hefyd i archwilio'u teimladau, datblygu hunanymwybyddiaeth a hunan-barch, a datblygu eu hunan-dyb.

Mae datblygiad corfforol dysgwyr yn dibynnu ar faethiad addas, digon o ymarfer corff, hylendid priodol, diogelwch a dewisiadau iach cadarnhaol. Mae sicrhau eu bod yn meithrin yr wybodaeth a'r sgiliau ymarferol i wneud dewisiadau gwybodus ym mhob un o'r meysydd hyn yn ganolog i'r broses. Ynghyd â deall dewisiadau iechyd da, dylai'r dysgwyr fod yn ymwybodol o'r peryglon posibl sy'n codi wrth ddefnyddio a chamddefnyddio sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon.

Cydberthnasau personol sy'n rhai cyfrifol, priodol ac iach yw'r cyd-destun ar gyfer archwilio'r agweddau niferus sy'n perthyn i rywioldeb. Mae angen gosod addysg rhyw a pherthnasoedd mewn fframwaith clir o werthoedd ac ymwybyddiaeth o'r gyfraith ar ymddygiad rhywiol. Mae'n ofynnol cyflwyno agweddau megis bywyd teuluol yn ei holl ffurfiau amrywiol, gan gynnwys priodas, ymddygiadau rhywiol, ystyriaethau sy'n ymwneud â bod yn rhieni, a materion sensitif megis erthyliad mewn modd cytbwys, ac mae'n ofynnol trafod materion moesegol mewn modd gwrthrychol. Fodd bynnag, mae paratoi'r dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu hymddygiad yn eu cydberthnasau personol a sicrhau eu bod yn dysgu sut i adnabod ymddygiad amhriodol llawn mor bwysig hefyd. Dylai'r dysgwyr wybod ble a sut y mae cael gafael ar gymorth a gwybodaeth bersonol.

Mae 'deallusrwydd emosiynol' yn golygu rheoli teimladau ac emosiynau yn llwyddiannus, ac mae'n cael effaith sylweddol ar effeithiolrwydd personol a chymdeithasol. Mae hunan-dyb yn effeithio ar hyder ac uchelgais dysgwyr a'u gallu i ddelio â bywyd yn gyffredinol. Mae deall a rheoli emosiynau yn gwella iechyd meddwl trwy gynyddu gallu dysgwyr i ymdopi â gwrthdaro, straen, colled a newid.

Datblygiad moesol ac ysbrydol

Gellir helpu'r dysgwyr i ddatblygu cod personol o foesoldeb ynghyd â'r sgiliau gwneud penderfyniadau sy'n angenrheidiol i ffurfio barn foesol resymegol a chyfrifol. Gellir eu helpu i ymestyn eu dealltwriaeth o faterion personol ac i fyfyrio ynghylch eu profiadau a rhai o gwestiynau a materion dwysach bywyd.

Gall ethos yr ysgol, a gaiff ei ymgorffori mewn rheolau y cytunwyd arnynt yn ddemocrataidd, ddarparu amgylchedd sefydlog a threfnus lle gellir hybu gwerthoedd megis parch, gonestrwydd, tegwch a chyfrifoldeb. Dylid annog y dysgwyr i fyfyrio ynghylch eu credoau a'u gwerthoedd personol a chymhwyso'r rheiny i'w profiadau eu hunain. Gellir eu hysbrydoli hefyd i fynegi eu teimladau mewnol gan ddefnyddio dychymyg a chreadigrwydd. Gellir ennyn profiadau o'r fath drwy ymdeimlad o ryfeddod a mawredd tuag at y byd naturiol, drwy ddirgelion bywyd a marwolaeth, drwy gyfyngiadau dealltwriaeth ddynol neu drwy ymateb i fod dwyfol.

Paratoi ar gyfer dysgu gydol oes

Gellir helpu'r dysgwyr i wella'u dysgu a'u perfformiad a datblygu eu potensial a'u galluoedd ym maes dysgu gydol oes.

Mae'r prif gyd-destunau sy'n gysylltiedig â'r thema hon yn ymwneud â pharatoi'r dysgwyr ar gyfer dewisiadau ym maes addysg a bywyd. Mae hynny'n cynnwys datblygu sgiliau rheoli personol a sgiliau ymarferol sylfaenol sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd o ddydd i ddydd. Mae angen cymorth ar y dysgwyr i ddatblygu sgiliau dysgu effeithiol a dealltwriaeth o'u prosesau dysgu eu hunain. Mae angen cymorth arnynt i ddatblygu sgiliau hunanddadansoddi, myfyrto ynghylch cynnydd, nodi cryfderau a gwendidau, a phennu targedau ar gyfer gwella. Mae angen cymell y dysgwyr i feithrin brwdfrydedd ac ymrwymiad mewn perthynas â dysgu gydol oes.

Mae angen i ddysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o rôl a phwysigrwydd arian hefyd. Mae angen cymorth arnynt i ddeall eu rôl a'u cyfrifoldebau fel defnyddwyr, a chymorth i feithrin gallu ariannol a fydd yn eu galluogi i ffurfio barn effeithiol a gwneud penderfyniadau effeithiol mewn perthynas â materion economaidd. Mae angen i ddysgwyr wybod y gwahaniaeth rhwng gwaith gyda thâl a gwaith heb dâl, a chydabod pwysigrwydd caffael y sgiliau newydd hynny sy'n hanfodol mewn byd gwaith sy'n gystadleuol ac sy'n newid yn gyflym.

Datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang

Mae angen i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau, gwybodaeth, agweddau a'r gwerthoedd i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau yn unigol ac ar y cyd ar lefel leol a byd-eang, a fydd yn gwella ansawdd bywyd yn y presennol heb niweidio'r blaned ar gyfer y dyfodol. Mae angen eu helpu i ddeall y grymoedd byd-eang sy'n dylanwadu ar eu bywydau, ac mae angen eu helpu i gaffael y gallu i herio anghyfiawnder ac anghydraddoldeb a fydd yn eu galluogi i hyrwyddo byd mwy cynaliadwy a theg.

Mae addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn golygu dysgu am y cysylltiadau rhwng y gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd a dysgu am y cysylltiadau rhwng ein bywydau ni ein hunain a bywydau pobl ar draws y byd; dysgu am anghenion a hawliau cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol; dysgu am y cydberthnasau rhwng grym, adnoddau a hawliau dynol; a dysgu am oblygiadau lleol a byd-eang gweithgareddau dynol a'r camau gweithredu y gall unigolion a mudiadau eu cymryd i ymateb i faterion lleol a byd-eang. Bydd cysyniadau fel defnyddio ynni, newid hinsawdd, colli bioamrywiaeth ac effaith tlodi byd-eang yn dod yn fyw, yn cael eu deall, eu gweithredu arnynt a'u dangos drwy weithredoedd y dysgwyr yn yr ysgol neu'r coleg a thrwy eu bywydau yn y gymuned ehangach.

Dilyniant mewn ABCh

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol yn y Cyfnod Sylfaen

Mae Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol wrth wraidd y Cyfnod Sylfaen, a chaiff sgiliau plant eu datblygu ar draws yr holl Feysydd Dysgu wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu trwy brofiadau, a gynhelir dan do ac yn yr awyr agored. Mae plant yn dysgu amdanynt eu hunain a'u perthynas â phlant eraill ac oedolion o fewn eu teulu a'r tu allan iddo. Caiff plant eu hannog i ddatblygu eu hunan-barch, eu credoau personol a'u gwerthoedd moesol. Maent yn datblygu dealltwriaeth o'r ffaith bod gan bobl eraill anghenion, galluoedd, credoau a safbwyntiau gwahanol. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cynnal hunaniaeth ddiwylliannol pob plentyn, a hynny er mwyn dathlu gwahanol ddiwylliannau a helpu plant i adnabod eu diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill a meithrin ymwybyddiaeth gadarnhaol ohonynt. Dylid datblygu agweddau cadarnhaol er mwyn galluogi plant i dyfu'n fwyfwy ymwybodol o'r amrywiaeth o ddiwylliannau ac ieithoedd sy'n bodoli mewn Cymru amlddiwylliannol, a gwerthfawrogi gwerth yr amrywiaeth honno. Dylent ddod yn fwyfwy ymwybodol o'r traddodiadau a'r dathliadau sy'n elfennau pwysig o'r diwylliannau a geir yng Nghymru.

Caiff cymhelliant ac ymrwymiad i ddysgu eu hannog wrth i blant ddechrau deall eu potensial a'u galluoedd eu hunain. Caiff plant eu cynorthwyo i dyfu'n feddylwyr ac yn ddysgwyr hyderus, cymwys ac annibynnol. Maent yn datblygu ymwybyddiaeth o'u hamgylchedd ac yn dysgu am yr amrywiaeth o bobl sy'n byw ac yn gweithio yno. Caiff agweddau cadarnhaol eu meithrin tuag at fwynhau eu hamgylchedd a gofalu amdano. Wrth i'w hunaniaeth ddatblygu, mae plant yn dechrau mynegi eu teimladau a dangos empathi ag eraill. Maent yn profi heriau sy'n ymestyn eu gwaith dysgu.

ABCh yng Nghyfnod Allweddol 2

Yng Nghyfnod Allweddol 2, bydd y dysgwyr yn adeiladu ar y sgiliau, yr agweddau a'r gwerthoedd, a'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth y maent wedi dechrau eu caffael a'u datblygu yn ystod y Cyfnod Sylfaen.

Mae ABCh yn cynnig cyfleoedd a phrofiadau dysgu sy'n adlewyrchu ymwybyddiaeth gorfforol a chymdeithasol ac annibyniaeth gynyddol y dysgwyr. Mae angen sicrhau eu bod yn meithrin y sgiliau a fydd yn eu galluogi i ddatblygu cydberthnasau effeithiol, derbyn mwy o gyfrifoldeb personol a chadw eu hunain yn ddiogel. Mae ABCh yn helpu'r dysgwyr i ymdopi â'r newidiadau sy'n digwydd yn ystod glasoed, mae'n eu cyflwyno i fyd ehangach ac yn eu galluogi i wneud cyfraniad gweithredol i'w cymunedau.

ABCh yng Nghyfnod Allweddol 3

Yng Nghyfnod Allweddol 3, bydd y dysgwyr yn adeiladu ar y sgiliau, yr agweddau a'r gwerthoedd, a'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth y maent wedi'u caffael a'u datblygu yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae ABCh yn cydnabod y newidiadau y mae'r dysgwyr yn eu profi ac yn ymdrin â'r newidiadau hynny, gan ddechrau â'r broses o symud i'r ysgol uwchradd a'r sialensiau sy'n gysylltiedig â glasoed. Mae'r dysgwyr yn caffael y sgiliau a fydd yn eu galluogi i feithrin mwy o hunanhyder. Caiff y dysgwyr eu hannog i reoli cydberthnasau amrywiol mewn cymdeithas ac ymdopi â dylanwad cynyddol cyfoedion a'r cyfryngau. Mae hynny'n eu galluogi i fynd i'r afael yn fwy hyderus â'r sialensiau sy'n gysylltiedig â dinasyddiaeth weithgar a dysgu effeithiol.

ABCh yng Nghyfnod Allweddol 4

Yng Nghyfnod Allweddol 4, bydd y dysgwyr yn adeiladu ar y sgiliau, yr agweddau a'r gwerthoedd, a'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth y maent wedi'u caffael a'u datblygu yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mae ABCh yn adlewyrchu'r ffaith bod y dysgwyr yn symud tuag at rôl annibynnol yn eu bywyd fel oedolion, lle byddant yn ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb amdanynt eu hunain a phobl eraill. Mae'r dysgwyr yn meithrin y sgiliau a fydd yn eu galluogi i reoli sefyllfaoedd cyfnewidiol â hyder cynyddol a thyfu'n fwy medrus wrth drin arian. Mae ABCh yn galluogi'r dysgwyr i ddatblygu ymwybyddiaeth feirniadol o faterion cyfoes lleol a byd-eang a chyfranogi yn eu cymunedau fel dinasyddion gweithgar yn yr unfed ganrif ar hugain.

ABCh ar gyfer dysgwyr ôl-16

Mae'r ddarpariaeth ABCh ar gyfer dysgwyr ôl-16 yn cydnabod annibyniaeth y dysgwyr ac yn eu galluogi i bennu a chyrraedd nodau personol o safbwynt addysg a hyfforddiant. Dylent fod yn barod i dderbyn cyfrifoldeb am ddatblygiad personol a chymdeithasol a lles, a dylent feddu ar ymwybyddiaeth gynyddol o'u hunaniaeth. Mae ABCh yn paratoi'r dysgwyr ar gyfer bod yn ddinasyddion gwybodus a dyfeisgar sy'n gwybod sut i drin arian ac sy'n barod i gyfranogi er lles eu cymunedau yn lleol ac yn fyd-eang.



Sgiliau

Datblygu meddwl



Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- adnabod y cysylltiadau rhwng achos ac effaith
- gwahaniaethu rhwng 'ffeithiau', credoau a barn
- ffurfio barn personol a gwneud penderfyniadau gwybodus
- defnyddio technegau priodol ar gyfer myfyrdod personol.

Datblygu cyfathrebu



Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- wrando'n astud, gofyn cwestiynau ac ymateb i bobl eraill
- mynegi eu safbwyntiau a'u syniadau yn hyderus gan ddefnyddio ystod o ddulliau priodol
- cyfrannu at drafodaethau dosbarth a chymryd rhan mewn dadleuon.

Ystod

Dinasyddiaeth weithgar

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- ddatblygu parch atynt hwy eu hunain ac at bobl eraill
- gwerthfawrogi teulu a ffrindiau fel ffynhonnell o gymorth i'w gilydd
- gwerthfawrogi amrywiaeth a chydabod pwysigrwydd cyfle cyfartal
- cymryd rhan ym mywyd yr ysgol

a deall:

- eu hawliau, e.e. *Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*, a'u cyfrifoldebau
- pwysigrwydd gwneud penderfyniadau mewn modd democrataidd
- y manteision o gael teulu a ffrindiau, a'r problemau sy'n gallu codi
- sefyllfaoedd sy'n esgor ar wrthdaro a natur bwlio
- agweddau ar dreftadaeth ddiwylliannol ac amrywiaeth yng Nghymru
- sut y mae anghyfiawnder ac anghydraddoldeb yn effeithio ar fywydau pobl
- yr hyn y mae anabledd yn ei olygu
- y sialensiau y gall dysgwyr ddod ar eu traws o safbwynt cael mynediad i gyfleoedd dysgu yn yr ysgol.



Iechyd a lles emosiynol

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- gymryd cyfrifoldeb cynyddol dros gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach
- teimlo'n bositif amdanynt eu hunain a bod yn sensitif i deimladau pobl eraill

a deall:

- y nodweddion a manteision corfforol ac emosiynol sy'n gysylltiedig â ffordd iach o fyw, e.e. *bwyd a ffithrwydd*
- yr effeithiau niweidiol a gaiff tybaco, alcohol a sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon eraill arnynt hwy eu hunain a phobl eraill
- y rhesymau dros y newidiadau corfforol ac emosiynol sy'n digwydd yn ystod glasod gan gynnwys cenhedliad, beichiogrwydd a genedigaeth
- ystod eu teimladau a'u hemosiynau eu hunain a theimladau ac emosiynau pobl eraill
- pwysigrwydd diogelwch personol
- sut i wahaniaethu rhwng cyffyrddiadau priodol a chyffyrddiadau amhriodol
- beth y dylid ei wneud neu at bwy y dylid mynd pan na fyddant yn teimlo'n ddiogel.



Datblygu TGCh



Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- ddod o hyd i wybodaeth a syniadau a'u datblygu
- creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau
- defnyddio TGCh mewn modd diogel gyda chymorth ac arweiniad.

Datblygu rhif



Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- ddethol data o wybodaeth benodol a gyflwynir mewn ystod o ffyrdd rhifol a graffigol
- casglu gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys cronfeydd data neu holiaduron syml, er mwyn cefnogi'u dealltwriaeth o faterion yn ymwneud ag ABCh.

Datblygiad moesol ac ysbrydol

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- archwilio'u gwerthoedd personol
- bod yn onest ac yn deg a pharchu rheolau, y gyfraith ac awdurdod

a deall:

- sut mae gwerthoedd diwylliannol a chredoau crefyddol yn llywio'r ffordd y mae pobl yn byw
- bod pobl yn wahanol i'w gilydd o safbwynt eu barn am yr hyn sy'n dda a'r hyn sy'n ddrwg
- bod gweithredoedd personol yn esgor ar ganlyniadau.

Paratoi ar gyfer dysgu gydol oes

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- fwynhau a gwerthfawrogi gwaith dysgu a chyraeddiadau
- cymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu

a deall:

- yr ystod o swyddi a gaiff eu cyflawni gan bobl yn y gymuned
- bod arian yn cael ei ennill trwy weithio ac y gall arian brynu nwyddau a gwasanaethau
- pwysigrwydd gofalu am eu harian a'r manteision sy'n gysylltiedig â chynilo arian yn rheolaidd.





Gweithio gydag eraill

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- gydweithio i ddatrys problemau
- ffurfio a chynnal cyfeillgarwch a chydberthnasau eraill
- ymwrthod â phwysau ac ymddygiad diangen gan gyfoedion
- uniaethu â phrofiadau a theimladau pobl eraill
- rheoli gwahanol emosiynau a datblygu strategaethau ar gyfer datrys gwrthdaro a delio â bwllo
- gofyn am gymorth a chynghor personol.

Gwella'ch dysgu eich hun

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- brofi arddulliau dysgu amrywiol ac adnabod y ffyrdd y maent yn dysgu orau
- myfyrio ynghylch cynnydd, nodi cryfderau a gwendidau, a phennu targedau ar gyfer gwella
- cymhwyso'u gwaith dysgu i sefyllfaoedd tebyg yn yr ysgol
- datblygu sgiliau ymarferol sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd bob dydd.

Datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- werthfawrogi'r byd naturiol fel ffynhonnell o ysbrydoliaeth
- cymryd diddordeb gweithredol mewn agweddau amrywiol ar fywyd yn yr ysgol a'r amgylchedd ehangach
- datblygu agwedd gadarnhaol at faterion sy'n ymwneud â thlodi a thegwch

a deall:

- sut y gall y penderfyniadau a wnawn fel unigolion a gyda'n gilydd effeithio ar yr amgylchedd
- bod gweithredoedd lleol yn cael effeithiau byd-eang oherwydd y cysylltiadau rhwng lleoedd a phobl
- sut y gall tlodi ac anghydraddoldeb achosi problemau.

Agorwch er mwyn gweld gweddill Cyfnod Allweddol 2: deilliannau dysgu.



Sgiliau

Datblygu meddwl



Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- ddefnyddio peth gwybodaeth flaenorol i esbonio'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith
- adnabod ac asesu tuedd a dibynadwyedd, e.e. *gwerthuso negeseuon gan y cyfryngau*
- ystyried safbwyntiau pobl eraill er mwyn llunio barn a gwneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol
- defnyddio ystod o dechnegau ar gyfer myfyrdod personol.

Datblygu cyfathrebu



Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- wrando'n astud mewn gwahanol sefyllfaoedd ac ymateb yn briodol
- cyfleu teimladau a safbwyntiau personol yn hyderus gan ddefnyddio ystod o ddulliau priodol
- mynegi barn yn glir a chyfiawnhau safbwynt personol
- cymryd rhan mewn dadleuon a phleidleisio ar faterion.

Ystod

Dinasyddiaeth weithgar

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- ddatblygu parch atynt hwy eu hunain ac at bobl eraill
- gwerthfawrogi a dathlu amrywiaeth a chydaddoldeb cyfle ar lefel leol, genedlaethol a byd-eang
- cael eu cyffwrdd gan anghyfiawnder, ecsbloetio, a gwrthod hawliau dynol
- cyfranogi yn yr ysgol a'r gymuned ehangach

a deall:

- eu hawliau, e.e. *Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac Ymestyn Hawliau*
- eu cyfrifoldebau fel dinasyddion ifanc yng Nghymru
- egwyddorion democratiaeth yng Nghymru, y DU a'r UE
- sut y caiff cynrychiolwyr, e.e. *Cyngor Ysgol, Fforwm Ieuenctid, Y Ddraig Ffynci, Cyngorwyr, Aelodau'r Cynulliad, Aelodau Seneddol, Aelodau Seneddol Ewropeaidd*, eu hethol, a deall eu swyddogaethau



- sut y gall pobl ifanc leisio'u barn a dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau
- sut i adnabod enghreifftiau o ragfarn, hiliaeth a stereoteipio, a'u herio'n effeithiol
- agweddau allweddol ar y system cyfiawnder troseddol a'r modd y maent yn berthnasol i bobl ifanc
- materion sy'n ymwneud â mynediad o fewn y gymuned, a bod â'r gallu i wahaniaethu rhwng gwahanol lefelau o anghenion dysgu ac anabledd
- materion amserol ar lefel leol a byd-eang.



Datblygu TGCh



Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- ddod o hyd i wybodaeth a syniadau a'u datblygu
- creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau
- defnyddio TGCh mewn modd diogel a chyfrifol, gan ddilyn arferion diogel.

Datblygu rhif



Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- gael mynediad i ddata a dethol data o wybodaeth berthnasol a gyflwynir mewn ffyrdd amrywiol ac o ffynonellau gwahanol er mwyn cefnogi'u dealltwriaeth o faterion yn ymwneud ag ABCh.

Iechyd a lles emosiynol

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- ddangos agwedd gyfrifol at gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach
- datblygu agweddau cadarnhaol atynt hwy eu hunain ac at bobl eraill

a deall:

- y berthynas rhwng deiet, ymarfer corff, ac iechyd a lles da
- yr effeithiau a'r peryglon sy'n codi wrth ddefnyddio amrywiaeth o sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon a'r gyfraith sy'n rheoli eu defnydd
- sut i ddefnyddio alcohol mewn modd cyfrifol a pheryglon goryfed mewn pyliau
- y gyfraith sy'n ymwneud ag agweddau ar ymddygiad rhywiol
- am atal cenhedlu, heintiau a drosglwyddir yn rhywiol a HIV o fewn cyd-destun perthnasoedd
- nodweddion perthnasoedd diogel a'r rhai a all arwain at gamdriniaeth

- rôl priodas, pwysigrwydd perthnasoedd teulu sefydlog a chyfrifoldebau rhieni
- yr ystod o emosiynau y maent yn eu profi a sut i ddatblygu strategaethau ar gyfer ymdopi â theimladau negyddol
- y manteision o gael mynediad i wahanol ffynonellau o wybodaeth, cymorth a chyingor.



Gweithio gydag eraill

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- weithio'n annibynnol ac ar y cyd ag eraill
- ffurfio a chynnal cyfeillgarwch, a dechrau trafod ymddygiad mewn cydberthnasau personol
- bod yn bendant ac ymwrthod â phwysau diangen gan gyfoedion
- uniaethu â phrofiadau, teimladau a gweithredoedd pobl eraill
- datblygu a defnyddio ystod o strategaethau i reoli dicter a datrys gwrthdaro
- ymaddasu i sefyllfaoedd newydd
- cael mynediad i ystod briodol o ffynonellau er mwyn cael cymorth, cefnogaeth a chyingor.

Gwella'ch dysgu eich hun

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- adnabod a datblygu arddulliau dysgu er mwyn gwella'u dysgu
- adolygu a myfyrio ynghylch dysgu, a dadansoddi cryfderau a gwendidau
- cymhwyso'u dysgu i sefyllfaoedd tebyg yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol
- rheoli amser a bodloni terfynau amser
- llunio cynlluniau gweithredu a phennu targedau
- datblygu ystod o dechnegau adolygu er mwyn atgyfnerthu dysgu
- datblygu sgiliau ymarferol sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd bob dydd, e.e. *sgiliau cymorth cyntaf sylfaenol*.

Datblygiad moesol ac ysbrydol

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- ddatblygu dealltwriaeth o'u gwerthoedd
- dangos sensitifrwydd i werthoedd pobl eraill

a deall:

- y gweithredoedd sy'n dda ac sy'n ddrwg yn eu barn hwy, a'r problemau moesol sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd bywyd
- eu credoau yng nghyd-destun y rheiny sy'n bodoli yn y gymdeithas.

Paratoi ar gyfer dysgu gydol oes

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- werthfawrogi'u cyflawniadau ac ymrwymo i ddysgu gydol oes
- cymryd cyfrifoldeb personol am weithredoedd a phenderfyniadau sy'n gysylltiedig â dysgu

a deall:

- eu doniau a'u diddordebau er mwyn gwneud dewisiadau gwybodus ynghylch dysgu ac astudio yn y dyfodol
- canlyniadau economaidd a moesegol y penderfyniadau ariannol personol y maent yn eu gwneud fel defnyddwyr, e.e. *Masnach Deg*
- sut i reoli'u materion ariannol personol yn fedrus a sylweddoli bod cynilo arian yn arwain at annibyniaeth ariannol.

Datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- ddatblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb personol dros faterion lleol a byd-eang, e.e. *gwarchod bioamrywiaeth*
- gwerthfawrogi bod gweithredoedd a phersbectifau pobl yn cael eu dylanwadau gan eu gwerthoedd

a deall:

- materion allweddol datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, e.e. *newid hinsawdd*, a'r angen i fyfyrion ar benderfyniadau personol am ddewisiadau ffordd o fyw
- materion byd-eang sy'n bygwth y blaned, e.e. *anghydraddoldeb cyfoeth a'r gwahaniaeth mewn darpariaeth iechyd*
- sut y gall safbwyntiau gwahanol ar faterion byd-eang esgor ar wrthdaro, a bod yn ymwybodol o rôl grwpiau pwysu.

Agorwch er mwyn gweld gweddill Cyfnod Allweddol 3: deilliannau dysgu.



Sgiliau

Datblygu meddwl



Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- ddefnyddio gwybodaeth flaenorol i esbonio'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith, a rhagfynegi
- dadansoddi gwybodaeth a syniadau er mwyn asesu tuedd, dibynadwyedd a dilysrwydd
- ystyried gwahanol safbwyntiau wrth wneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus yn effeithiol
- defnyddio ystod o dechnegau ar gyfer myfyrdod personol.

Datblygu cyfathrebu



Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- wrando'n graff mewn ystod o sefyllfaoedd ac ymateb yn briodol
- cyfleu teimladau a safbwyntiau personol yn effeithiol mewn ystod eang o sefyllfaoedd gan ddefnyddio ystod o ddulliau priodol
- gwerthfawrogi safbwyntiau eraill, myfyrio yn eu cylch, a'u gwerthuso'n feirniadol.

Ystod

Dinasyddiaeth weithgar

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- ddatblygu parch atynt hwy eu hunain ac at bobl eraill
- gwerthfawrogi amrywiaeth a chyfle cyfartal, a chael eu cythruddo gan anghyfiawnder, ecsbloetio, a gwrthod hawliau dynol
- mynd ati i gyfranogi yn ymarferol yn y gymuned

a deall:

- egwyddorion y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol
- sut y mae systemau gwleidyddol yn gweithio ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol, e.e. *yr Undeb Ewropeaidd*, y *Cenhedloedd Unedig*
- nodweddion mwyaf amlwg y prif bleidiau gwleidyddol yng Nghymru
- y cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ar lefel leol a chenedlaethol



- pwysigrwydd cymryd rhan mewn etholiadau democrataidd a'r cysylltiadau rhwng penderfyniadau gwleidyddol a'u bywydau eu hunain
- pwysigrwydd cael mynediad at wybodaeth ddiduedd, gan gynnwys y rhyngwrwyd, a bod yn barod i herio'r safbwyntiau a ledaenir yn y cyfryngau
- sut i herio enghreifftiau o ragfarn, hiliaeth a stereoteipio mewn modd pendant
- materion a digwyddiadau cyfoes ar lefel leol a byd-eang, e.e. *digartrefedd ac ymfudo rhyngwladol*.



Datblygu TGCh



Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- ddod o hyd i wybodaeth a syniadau a'u datblygu
- creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau
- defnyddio TGCh mewn modd diogel, cyfrifol ac annibynnol, gan gydymffurfio â rheoliadau gwarchod data a gan ddilyn arferion diogel.

Datblygu rhif



Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- gael mynediad i ddata rhifol o ffynonellau ysgrifenedig a graffigol
- dewis o blith amrywiaeth o ddulliau cyflwyno data, gan gynnwys siartiau cylch, graffiau gwasgariad a graffiau llinell, a dehongli'r amrywiaeth honno o ddulliau er mwyn cefnogi'u dealltwriaeth o faterion yn ymwneud ag ABCh.

Iechyd a lles emosiynol

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- dderbyn cyfrifoldeb personol am gadw'r meddwl a'r corff yn ddiogel ac yn iach
- datblygu agwedd gyfrifol at gydberthnasau personol

a deall:

- y canlyniadau byrdymor a'r canlyniadau mwy hirdymor wrth wneud penderfyniadau am eu hiechyd personol
- canlyniadau personol, cymdeithasol a chyfreithiol defnyddio sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon
- yr ystod o agweddau, cydberthnasau ac ymddygiadau rhywiol a geir mewn cymdeithas
- pwysigrwydd iechyd rhywiol a'r risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch rhywiol, gan gynnwys achosion posibl o ecsbloetio rhywiol

- y nodweddion sy'n perthyn i fod yn rhiant effeithiol, ac effaith colled a newid ar gydberthnasau
- y ffactorau sy'n effeithio ar iechyd meddwl a'r ffyrdd y gellir meithrin lles emosiynol
- y mudiadau statudol a gwirfoddol sy'n hybu iechyd a lles emosiynol
- sut i gael mynediad i gymorth personol a chyngor proffesiynol ynghylch iechyd yn hyderus.

Datblygiad moesol ac ysbrydol

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- ystyried cwestiynau a materion sy'n ymwneud ag ystyr a phwrpas bywyd

a deall:

- sut y mae credoau a gwerthoedd yn effeithio ar ffordd o fyw a hunaniaeth bersonol
- y ffactorau sy'n ymwneud â llunio barn foesol
- yr ystod o werthoedd ac egwyddorion sy'n llywio bywydau pobl.



Gweithio gydag eraill

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- weithio'n annibynnol ac ar y cyd ag eraill i gynllunio a chwblhau ystod o dasgau
- myfyrio ar y rolau i'w chwarae mewn sefyllfaoedd grŵp, gan gynnwys arweinyddiaeth
- ffurfio a chynnal cyfeillgarwch, a thrafod ymddygiad yn effeithiol mewn cydberthnasau
- bod yn bendant ac ymwrthod â dylanwad diangen gan gyfoedion a phobl eraill
- datrys gwrthdaro gan gyrraedd atebiad lle mae'r ddwy ochr ar eu hennill
- rheoli dicter, rhwystredigaeth a theimladau ymosodol yn effeithiol
- ymaddasu i sefyllfaoedd sy'n newid
- gwerthuso ystod o ffynonellau gwybodaeth, cymorth a chynghor a geir ar lefel leol a chenedlaethol a chael mynediad iddynt yn hyderus.

Gwella'ch dysgu eich hun

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- ddefnyddio arddulliau dysgu er mwyn gwella'u dysgu
- adolygu dysgu a llunio cynlluniau gweithredu'n effeithiol, gan bennu blaenoriaethau ar gyfer datblygu a thargedau ar gyfer gwella
- cymhwyso'u dysgu i sefyllfaoedd anghyfarwydd neu sefyllfaoedd mwy haniaethol
- rheoli amser a threfnu'u hunain yn effeithiol er mwyn bodloni terfynau amser
- defnyddio ystod o dechnegau adolygu er mwyn atgyfnerthu dysgu
- adnabod a rheoli straen
- datblygu sgiliau ymarferol sy'n angenrheidiol ar gyfer bywyd bob dydd, e.e. *gweinyddu cymorth cyntaf sylfaenol*.

Paratoi ar gyfer dysgu gydol oes

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- fod yn uchelgeisiol, yn hyblyg a chroesawu cyfleoedd dysgu
- bod yn drefnus a chymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u penderfyniadau sy'n gysylltiedig â dysgu

a deall:

- y cyfleoedd perthnasol sydd ar gael iddynt ym maes addysg a hyfforddiant
- eu hawliau fel defnyddwyr a'u cyfrifoldebau o safbwynt rheoli cyllideb
- pwysigrwydd cynllunio ar gyfer eu dyfodol ariannol, a sut i gael gafael ar gynghor ariannol.

Datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- gydnabod hawliau cenedlaethau'r dyfodol i ateb eu hanghenion sylfaenol
- bod yn gyfrifol yn bersonol am newid eu ffordd o fyw eu hunain fel ymateb i faterion lleol a byd-eang

a deall:

- cyd-ddibyniaeth systemau economeg byd-eang, ac effeithiau datblygiadau dynol ar systemau naturiol
- y tensiynau rhwng twf economaidd, datblygu cynaliadwy ac anghenion dynol sylfaenol, e.e. *achosion anghydraddoldeb o fewn a rhwng cymdeithasau*.

Agorwch er mwyn gweld gweddill Cyfnod Allweddol 4: deilliannau dysgu.



Sgiliau

Datblygu meddwl



Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- ddefnyddio gwybodaeth flaenorol i esbonio'r cysylltiadau rhwng achos ac effaith a chyfiawnhau rhagfynegiadau
- gwerthuso gwybodaeth a syniadau er mwyn mesur tuedd, dibynadwyedd a dilysrwydd
- ystyried nifer o safbwyntiau mewn sefyllfaoedd mwy haniaethol, er mwyn llywio barn a phenderfyniadau
- defnyddio ystod o dechnegau ar gyfer myfyrddod personol.

Datblygu cyfathrebu



Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- gyfleu safbwyntiau cymhleth a mynegi barn mewn ystod eang o sefyllfaoedd gan ddefnyddio ystod o ddulliau priodol
- gwranddo ar safbwynt person arall, myfyrio yn ei gylch, ei werthuso'n feirniadol, ac ymateb iddo'n briodol.

Ystod

Dinasyddiaeth weithgar

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- ddangos parch atynt hwy eu hunain, at bobl eraill ac at amrywiaeth
- ymrwymo i chwarae rhan weithredol yn y gymuned

a deall:

- y gweithdrefnau, y prosesau a'r pwerau etholiadol sy'n perthyn i systemau gwleidyddol lleol, cenedlaethol, Ewropeaidd a rhyngwladol
- prif bolisiau'r prif bleidiau gwleidyddol yn y DU
- rôl Ewrop o fewn llywodraeth gyfansoddiadol y DU
- y cyfleoedd sydd ar gael i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol
- sut y gall unigolion a grwpiau gwirfoddol sicrhau newid ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol
- sut gall barn gyhoeddus, grwpiau lobio a'r cyfryngau gyfrannu at wneud penderfyniadau democrataidd a dylanwadu arnynt
- materion cyfoes ar lefel leol a bydd-eang.

Iechyd a lles emosiynol

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- dderbyn cyfrifoldeb am bob agwedd ar ddatblygiad personol a chymdeithasol a lles
- gweithredu fel modelau rôl cadarnhaol ar gyfer myfyrwyr iau

a deall:

- sut i werthuso dewisiadau personol ynghylch ffordd o fyw yng nghyd-destun iechyd corfforol a lles emosiynol, a hynny mewn modd beirniadol, gan ystyried canlyniadau byrdymor a hirdymor penderfyniadau o'r fath
- yr angen i gymryd cyfrifoldeb am ddiogelwch personol a diogelwch grŵp mewn lleoliadau cymdeithasol
- canlyniadau posibl gweithgarwch rhywiol iddynt hwy eu hunain a'u cydberthnasau personol
- y profiadau bywyd sy'n gwella neu'n niweidio hunan-dyb, ac archwilio'r ffyrdd gorau o ymdopi â gofynion sefyllfaoedd o'r fath
- rôl y wladwriaeth o safbwynt hybu iechyd a lles emosiynol y cyhoedd.



Datblygu TGCh



Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- ddod o hyd i wybodaeth a syniadau a'u datblygu
- creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau
- defnyddio TGCh mewn modd diogel, cyfrifol ac annibynnol, gan fewnosod ymddygiadau a thechnegau priodol i'w gweithgareddau i sicrhau y byddant yn ddiogel a chyfreithiol trwy'r amser.

Datblygu rhif



Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- ddewis sut i gael gwybodaeth berthnasol o wahanol ffynonellau
- casglu a defnyddio data perthnasol i gefnogi'u dealltwriaeth o faterion yn ymwneud ag ABCh.

Datblygiad moesol ac ysbrydol

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- ddatblygu set gyson o werthoedd personol a bod â'r hyder i roi'r rheiny ar waith yn ymarferol

a deall:

- y cysyniad o gyfrifoldeb moesol a'r angen am werthoedd cyffredin
- y problemau moesol a moesegol sy'n wynebu cymdeithas ac unigolion, a myfyrio ynghylch sut y gellid datrys y problemau hyn
- y goblygiadau moesol, cymdeithasol, moesegol ac amgylcheddol sy'n gysylltiedig â darganfyddiadau gwyddonol a chyrff technolegol.

Paratoi ar gyfer dysgu gydol oes

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- fod yn gadarnhaol ac yn ddyfeisgar yn eu hagwedd at ddysgu
- datblygu'r hyder a'r awydd i bennu nodau personol a rhoi eu syniadau ar waith

a deall:

- y cyfleoedd perthnasol sydd ar gael iddynt ym maes addysg, hyfforddiant a byd gwaith
- eu hannibyniaeth gynyddol o safbwynt rheoli'u materion ariannol personol a chael gafael ar gredyd.



Gweithio gydag eraill

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- weithio'n annibynnol ac ar y cyd ag eraill i gynllunio a chwblhau ystod o dasgau
- trafod yn effeithiol mewn cydberthnasau â chyfoedion ac oedolion
- bod yn bendant ac ymwrthod â dylanwad nas dymunir gan gyfoedion a phobl eraill
- ymaddasu'n rhwydd i sefyllfaoedd sy'n newid
- cael gafael ar wybodaeth, cymorth a chyngor a'u gwerthuso'n annibynnol
- myfyrio ynghylch y broses o gyfranogi.

Gwella'ch dysgu eich hun

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- adolygu dysgu a llunio cynlluniau gweithredu yn annibynnol, gan bennu blaenoriaethau realistig ar gyfer datblygu a thargedau realistig ar gyfer gwella
- cymhwyso'u dysgu i sefyllfaoedd haniaethol
- defnyddio ystod o dechnegau adolygu yn effeithiol er mwyn atgyfnerthu dysgu a pharatoi ar gyfer arholiadau
- gwneud gwaith ymchwil a pharatoi ceisiadau o ansawdd uchel am swyddi, hyfforddiant neu addysg uwch
- gwerthuso cyngor ariannol, cymryd cyfrifoldeb personol am waith cynllunio ariannol, a rheoli'u materion ariannol personol yn effeithiol.

Datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang

Dylid rhoi cyfleoedd i'r dysgwyr:

- ddangos cyfrifoldeb personol fel dinesydd byd-eang, a hynny mewn modd gweithredol
- gwerthfawrogi pam bod cyfiawnder a thegwch yn angenrheidiol mewn cymuned gynaliadwy

a deall:

- sialensiau ac effeithiau globaleiddio a chyd-ddibyniaeth fyd-eang ar gyfer cymunedau mewn gwahanol rannau o'r byd
- yr angen am gydweithredu rhyngwladol, a gwerthfawrogi'r rôl y mae cyrff anllywodraethol yn ei chwarae.

Agorwch er mwyn gweld gweddill Ôl-16: deilliannau dysgu.

Nodiadau